

## Y Sblat Fawr!

Cafwyd ysbrydoliaeth i greu'r weithgaredd yma o'r stori 'Nadolig Gwyntog Rwdolff'. Mae'n apelio at hiwmor plant bach gan fod cymaint o gyfleoedd i gymryd rhan a chwerthin drwy gydol y stori.

Yn y stori Nadolig Gwyntog Rwdolff mae un o geirw Siôn Corn yn bwyta gormod sbrowts adeg y Nadolig ac mae hyn yn achosi problem ar Noswyl y Nadolig pan mae angen iddo fynd â'r holl anrhegion o amgylch y byd! I fynd â'r stori ymhellach, rydym wedi creu cyd-destun mathemategol i'r plant greu eu sblatiau carw eu hunain. Gan fod y ceirw mor brysur ac am eu bod yn treulio cymaint o'u hamser yn hedfan, mae'n anorfod y bydd rhai sblatiau annymunol yn digwydd!

Yn y cyd-destun hwn, oherwydd yr hwyl a'r chwerthin wrth greu eu 'damweiniau' ceirw eu hunain, bydd cyfleoedd gwych i ddatblygu geirfa fathemategol gyfoethog y gellir adeiladu arni. Mae plentyn sydd wedi ymrwymo ac ymgolli mewn tasgau yn blentyn sy'n dysgu ac mae'r profiad hwn yn sicr yn hoelio sylw a diddordeb plant ac yn diddanu pawb sy'n cymryd rhan. Eglurwch i'r plant ein bod yn mynd i ollwng eu creadigaethau o uchder er mwyn gweld pwy all wneud y Sblat Orau!

Bydd casglu eitemau naturiol ar gyfer eu creadigaeth yn eich ardal awyr agored yn creu cyfleoedd ar gyfer cyfrif, didoli, dosbarthu a chofnodi. Mae'r plant yn casglu eitemau i greu eu cymysgedd. Gellir gosod paramedrau a fydd yn datblygu sgiliau mathemategol, er enghraifft casglu nifer neu bwysau penodol o eitemau neu setiau o eitemau. Os ydynt am ddefnyddio pedair o un eitem, faint mwy allan nhw eu casglu? Os ydynt eisiau eitem benodol ond bod ganddynt y nifer penodedig yn barod, faint fydd yn rhaid iddyn nhw dynnu allan?

Wedi casglu eu heitemau gallant gofnodi faint o eitemau y gallant eu rhoi yn eu cymysgedd ar ffurf rysâit neu restr gofnodi. Gallant benderfynu sut y byddant yn cofnodi meintiau, a pha ddulliau a ddefnyddiant i fesur y meintiau hynny. Darparwch amrywiaeth dda o wahanol fathau o ddeunyddiau cofnodi, offer mesur (cloriannau pwyso, jygiau a silindrau mesur, ynghyd â sgwopiau neu rawiau ar gyfer mesuriadau ansafonol).

Darparwch bridd neu fwd ar gyfer eu cymysgedd a'u gwahodd i gofnodi sawl sgŵp neu lond rhaw y maent yn eu ddefnyddio yn eu cymysgedd. Fe allent bwysu eu pridd mewn gramau neu gilogramau a chael mesur safonol cywir o'r hyn sydd ynddo.

A allan nhw gofnodi faint o hylif a ddefnyddiant, faint maen nhw'n ei ychwanegu mewn litrau, bwcedi, jygiau neu fillilitrau? Pa effaith mae hyn yn ei gael ar drwch ac ansawdd y gymysgedd? Beth ydi'r ansawdd neu drwch gorau? Beth sy'n gwneud y Sblat Orau? Ai'r sblat orau yw'r un sy'n gwasgaru bellaf...yn gwneud y sain cryfaf mewn desibelau? Fe wnaethom ni ddefnyddio mesurydd desibelau y gellir ei lawrlwytho fel ap rhad ac am ddim i weld pa sblat oedd y mwyaf swnllyd.

Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnig llawer o gyfleoedd i blant ymarfer a chymhwysu eu sgiliau mathemategol. Dyma rai ohonynt:

- Pwyso (faint o bwysau o fwd ac eitemau eraill a ddefnyddiwyd)
- Mesur (faint fydd y sblat yn gwasgaru, mesur dyfnder neu uchder y sblat neu'r cymysgedd)
- Cyfrif (cyfrif yr eitemau niferus a chyfanswm y cynhwysion)
- Cofnodi (cofnodi'r cynhwysion, mesuriadau hylif)
- Amcangyfrif (amcangyfrif pa mor fawr fydd eu sblat, faint mae eu cynhwysion yn bwysu neu faint o gynhwysion fydd eu hangen ar gyfer gwneud y gymysgedd)
- Cymharu (cymharu'r gwahanol feintiau, fesurau, pwysau)
- Trefnu (trefnu'r eitemau a'r symiau sy'n cael eu hychwanegu i'r gymysgedd ar adegau gwahanol a gosod gwahanol gyfnodau'r rysâit ar gyfer creu'r gymysgedd yn eu trefn)

Mae archwilio sut y byddwn yn barnu a mesur llwyddiant y weithgaredd gyda'r plant yn rhan bwysig o'r broses ymresymu rhifyddol. Bydd ganddynt lawer o syniadau ynghylch elfennau o gynnal prawf

teg, o ran maint eu sblats ac uchder i'w gollwng. Mae ymgynghori gyda'r plant yn bwysig er mwyn datblygu eu sgiliau, drwy drafod a gofyn iddynt ragfynegi, trafod achos ac effaith, gofyn iddynt egluro'r canlyniadau a thrwy gwestiynu effeithiol.

Dyma weithgaredd mwdlyd a digrif a fydd yn datblygu sgiliau mathemategol a rhifedd y plant mewn ffordd ystyrlon a diddorol.